CYMRU

CRYNODEB O'R MANIFFESTO

Crynodeb o Faniffesto WWF Cymru

# GOFYNNION & POLISÏAU

# GWELEDIGAETH

Mae arnom ni angen Llywodraeth a fydd yn gweithio dros Gymru well yn y dyfodol. Mae arnom ni angen Llywodraeth a all gynnal gweledigaeth hirdymor, gan sicrhau bod y newidiadau mawr y mae eu hangen yn ein seilwaith yn dechrau digwydd yn awr.

Mae arnom ni angen ymrwymiad i Gymru wirioneddol gynaliadwy.

Wrth hyn rydym yn golygu Cymru Un Blaned, lle mae pobl Cymru'n byw bywydau hapus, iach a llewyrchus o fewn eu cyfran deg o adnoddau'r Ddaear.

Rhaid i ni gynllunio ar gyfer gwlad wahanol, ar ôl y dirwasgiad, lle mae adnoddau, megis olew, yn gyfyngedig a lle mae economi llwyddiannus yn un sy'n cynhyrchu ychydig o garbon ac yn defnyddio ychydig o adnoddau.

Gwlad lle:

**Rydym yn lanach ac yn wyrddach – yn allyrru 80% yn llai o nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.**

**Rydym yn byw o fewn terfynau ein hamgylchedd – wedi lleihau ein hôl troed ecolegol i lefel Un Blaned erbyn 2050.**

**Mai lles pobl Cymru – yr holl agweddau arno – iechyd, hapusrwydd a ffyniant - yw blaenoriaeth y Llywodraeth – nid twf economaidd yn unig.**

Rydym yn credu y dylai'r amcanion hirdymor hyn gael eu harddel yn erthyglau ffydd gan bob plaid wleidyddol. Mae'r amser i anghytuno â'r dyfodol hwn wedi dod i ben. Yr hyn mae arnom angen ei weld yw pleidiau'n ymryson ynglŷn â phwy sydd â'r polisïau a'r rhaglenni gweithredu mwyaf credadwy i wneud i hyn ddigwydd.



Mae yna rai cerrig milltir allweddol y mae angen i bob plaid ymrwymo iddynt er mwyn iddynt weddnewid Cymru o ddifrif.

**Erbyn 2020,**

- Ailymrwymo i leihau holl allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru 40% (ar lefelau 1990).
- Dylai ôl troed ecolegol Cymru fod ar drywydd ar i lawr, gan leihau ar gyfartaledd o leiaf 3% y flwyddyn.

Ar y tudalennau canlynol, mae WWF yn cyflwyno'r addunedau yr ydym yn disgwyl eu gweld gan Lywodraeth newydd sydd o ddifrif ynglŷn â dod yn arweinydd byd.



© WWF CYMRU

# ER MWYN SICRHAU CYMRU UN BLANED

Rhaid i'r nod o leihau olion traed ecolegol a charbon fod yn glir ym mhob strategaeth, cynllun a pholisi. Nid yw'n ddigon cyflawni dim ond rhaglenni i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a *gynhyrchir* yng Nghymru.

Mae'r data diweddaraf am ôl troed carbon defnyddiaeth Cymru'n dangos bod yr arbedion o welliannau ynni technegol wedi cael eu dileu, dros y 15 mlynedd diwethaf, gan fwyfwy o ddefnyddiaeth h.y. mae cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu gyda llai o allyriadau carbon ond rydym yn defnyddio mwy ohonynt, felly'r effaith yn gyfan gwbl yw cynnydd yn yr ôl troed.

Felly, yn ogystal â chynlluniau ar y newid yn yr hinsawdd, mae angen gweithio tuag at ymddygiad cynaliadwy gan ddefnyddwyr.

**Adduned**

- Sefydlogi ac wedyn lleihau ôl troed ecolegol Cymru, fel ein bod ar drywydd ar i lawr, erbyn 2020.

Mae'r canlynol yn feysydd gweithgaredd allweddol ar gyfer y 4 blynedd nesaf er mwyn sicrhau Cymru Un Blaned.

**Economi un blaned**

Bydd yn rhaid i economi cynaliadwy weithredu gan ddefnyddio o leiaf 75% yn llai o adnoddau a chan greu o leiaf 80% yn llai o allyriadau carbon nag ar hyn o bryd. Dylai'r Llywodraeth gefnogi newid cyfiawn trwy ei holl ddulliau ysgogi – rheoleiddiol ac ariannol. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod pob punt sy'n cael ei gwario yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y nodau allweddol hyn.

**Polisi**

Er mwyn cyflawni hyn mae WWF Cymru'n credu bod angen i chi:

- Lunio cynllun i leihau ôl troed ecolegol/carbon Cymru, a monitro'r ffordd y caiff ei weithredu.
- Ailgyfeirio gwariant cyhoeddus i ffwrdd o le mae'n rhoi cymhorthdal i agweddau ar yr economi sy'n cynhyrchu llawer o garbon ac sy'n aneffeithlon, wrth ddefnyddio adnoddau tuag at feysydd sy'n hanfodol i allu Cymru i ffynnu yn ystod y newid i economi fyd-eang werdd. Rhaid hefyd cefnogi busnesau sy'n gwneud y newid drwy ddefnyddio 75% yn llai o adnoddau, gan gynnwys carbon.
- Asesu effaith yr holl bolisïau, rhaglenni a gwariant cyhoeddus ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ôl troed ecolegol/carbon Cymru a chyhoeddi'r asesiad.

**Caffael Cynaliadwy**

Sicrhau bod y sector cyhoeddus yn caffael bwyd lleol a thymhorol, a ddaw o ffynonellau ardystiedig cynaliadwy yn unig erbyn 2012, pryd bynnag y bo'r fath ffynonellau ar gael. Dylai hyn ddefnyddio'r ystod lawn o gynlluniau ardystio cynaliadwyedd, gan gynnwys pysgod sydd wedi'u hardystio 100% gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC) ac enwi olew palmwydd wedi'i ardystio gan yr RSPO (y Ford Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy).



# Y NEWID YN YR HINSAWDD

Er mwyn sicrhau bod Cymru'n brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a all fod yn beryglus, rhaid i ni leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn gyflym.

Yn hanfodol i hyn fydd i'r Llywodraeth nesaf roi blaenoriaeth i sicrhau system gyflenwi trydan ddatgarboneiddiedig, a datgarboneiddio'r stoc tai presennol. Mae'n hanfodol rhoi blaenoriaeth i gyflawni gweithredoedd ar frys i sicrhau hyn.

**Adduned**

- Ailymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru 40% (ar lefelau 1990) erbyn 2020, a sicrhau bod lefel y targedau lleihau blynyddol yn galluogi'r toriad o 40% i gael ei gyflawni.

**Polisi**

Er mwyn cyflawni hyn mae WWF Cymru'n credu bod angen i chi:

- Gadw'r uchelgais presennol i gael sector cyflenwi trydan datgarboneiddiedig erbyn 2025, (ond sicrhau cyflenwi o leiaf 70% erbyn 2020), gyda chefnogaeth pecyn cadarn o gymhellion i wneud i hyn ddigwydd.
- Gosod targed i leihau'r holl allyriadau carbon o dai o leiaf 40% erbyn 2020, gyda chefnogaeth rhaglen ôl-ffitio tai ledled Cymru i gyrraedd y targed.
- Sefydlogi lefelau trafnidiaeth ar lefel 2001 erbyn 2021.



Er mwyn gwneud hyn mae angen i'r Llywodraeth newydd:

**DATGARBONEIDDIO'R SYSTEM CYFLENWI TRYDAN**

**Cynyddu ynni adnewyddadwy**

- Mwy o rannu targedau ynni adnewyddadwy gydag awdurdodau lleol fel y bydd cydgyfrifoldeb dros sicrhau'r gallu i gyflenwi ynni adnewyddadwy wedi'i gysylltu â chymhellion. Gosod sancsiynau ar awdurdodau lleol lle mae cynlluniau datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu'n peidio â chydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol yn gyson.
- Ymchwilio i ddewisiadau ag effaith lai ar gyfer manteisio ar ynni llanwol afon Hafren gan gydymffurfio'n llwyr â Chyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a Chyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd.

**Ad-drefnu'r system cynllunio:**

- Diwygio TAN 8 gan sicrhau bod yr Ardaloedd Chwilio Strategol yn ddigonol at anghenion datblygu yn y dyfodol.
- Datblygu system cynllunio â phwyslais ar alluogi ynni adnewyddadwy a newid i economi carbon isel sy'n parchu terfynau amgylcheddol.
- Asesiad clir o effeithiau cynigion ynni o ran carbon.
- Rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau fod ag awdurdod i wrthod datblygiadau sy'n debyg o rwystro cyrraedd targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau.

# LLEIHAU'R GALW AM YNNI

**Mewn cartrefi ac adeiladau**

- Rhaglen ôl-ffitio tai ledled Cymru, a fyddai'n:
  - Sicrhau inswleiddio llofftydd a waliau ceudod i bawb fel rhan o becyn eco-adnewyddu tŷ cyfan.
  - Darparu grantiau a benthyciadau rhad ar gyfer mesurau drutach.
  - Creu cynllun i bob cartref i leihau ei allyriadau carbon 80% a nodi dull fesul cam i gyflawni hyn.
- Cadw'r ymrwymiadau i adeiladau newydd di-garbon trwy dynhau rheoliadau adeiladu.
- Gweithredu rheoliadau adeiladu fel bod safon effeithlonrwydd ynni ofynnol yn ofynnol ar gyfer yr holl dai preifat erbyn 2015. Bydd y safonau hyn yn codi dros amser, gan arwain at safon 'da iawn' erbyn 2020.
- Dylai gwelliannau ôl-ddilynol fod yn ofynnol mewn cartrefi sy'n bodoli eisoes pan fo pobl yn cynyddu ôl troed carbon eu cartref.

**Ym maes trafnidiaeth**

- Rhaid i'r llywodraeth fod yn glir mai un o'r nodau allweddol yw lleihau milltiroedd ceir i lefel 2001 erbyn 2020 a dylai hyn fod yn nod clir iawn ac yn un sy'n cael blaenoriaeth mewn cynlluniau trafnidiaeth.





© STEVE MORGAN / WWF-UK

- Cefnogi seilwaith a chadwyn gyflenwi tanwydd amgen i ardaloedd trefol/gwledig, gan gefnogi arloesi technolegol er mwyn cynorthwyo i wireddu'r dyhead bod o leiaf 10% o'r fflyd ceir yn gerbydau trydan erbyn 2020.
- 100% o fflyd ceir y sector cyhoeddus i fod yn gerbydau trydan erbyn 2020.
- Atal y cymhorthdal i'r cyswllt awyr rhwng y Gogledd a'r De ac yn lle hynny buddsoddi mewn cyfleusterau cynadledda fideo a chyfleusterau TGCh eraill a fydd yn lleihau'r angen i deithio.
- Cyflwyno tâl atal tagfeydd mewn dwy ddinas gan greu cymhelliad ariannol ar unwaith i ddewis trafnidiaeth egnïol neu gyhoeddus a defnyddio'r refeniw a gynhyrchir ar gyfer dewisiadau amgen mwy uchelgeisiol.

**Ym maes amaethyddiaeth a bwyd**

- Ymrwymo i darged o 15-20% o leihad erbyn 2020 yn y cig a'r cynhyrchion llaeth sy'n cael eu bwyta. Dylai'r targed hwn fod yng nghyd-destun cynllun lleihau nwyon tŷ gwydr ar gyfer bwyd sy'n ymrwymo i'w lleihau o leiaf 25% erbyn 2020 a 75% erbyn 2050. Mae ymchwil yn dangos nad yw gwella effeithlonrwydd cynhyrchu yn unig yn ddigon i gyrraedd y lefel o doriadau sy'n ofynnol gan ein targedau.

**Yn Y Sector Cyhoeddus**

- Rhoi targedau perfformiad gorfodol i gyrff y sector cyhoeddus o ran lleihau allyriadau a darparu ynni adnewyddadwy sy'n cael eu nodi mewn fframweithiau rheoli perfformiad. Dylid cyflwyno cosbau am beidio â chydymffurfio.
- Ymrwymo i ôl-ffitio holl adeiladau ac eiddo'r cynghorau.



# Y MÔR A PHYSGODFEYDD

Mae angen taer i warchod a rheoli ein harfordiroedd a'n moroedd yn effeithiol er mwyn mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth a sicrhau dyfodol hyfyw i ddiwydiannau morol. Yn ein barn ni, mae'r angen i sicrhau amgylchedd morol cynaliadwy ac i beidio â mynd y tu hwnt i derfynau amgylcheddol ein moroedd yn hanfodol i sicrhau datblygu cynaliadwy.

Felly er mwyn sicrhau bioamrywiaeth hirdymor rhaid i'r Llywodraeth sicrhau:

- Ei bod yn gwella'r ffordd y rheolir yr Ardaloedd Gwarchodedig Morol sy'n bodoli eisoes ac yn dynodi Parthau Cadwraeth Morol Gwarchodedig Iawn newydd fel rhan o'r rhwydwaith ecolegol gydlynol hwn erbyn 2012.
- Y cynhyrchir cynlluniau morol erbyn 2015 sy'n ymdrin â'r holl weithgareddau ac yn sicrhau y defnyddir adnoddau'n gynaliadwy ledled moroedd Cymru.
- Y rheolir pob pysgodfa mewn ffordd gynaliadwy, yn unol â chynllun rheoli hirdymor, sy'n cael ei greu gan randdeiliaid.
- Lobïo am well lywodraethu trwy ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a sefydlu cyrff rheoli pysgodfeydd rhanbarthol.
- Mynd ati i hybu ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol fel ffordd gredadwy o hybu arferion pysgota cynaliadwy a sicrhau gwelliant ym mherfformiad pysgodfeydd.




© STEVE MORGAN / WWF-UK

# DŴR CROYW

Mae'r galw am ddŵr yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu ar adeg pan mae'r newid yn yr hinsawdd yn debyg o arwain at fwy o fygythiad prinder dŵr nag erioed o'r blaen, a phan fyddwn yn fwy tebyg o gael sychdwr a llifogydd. Rhaid i ni amddiffyn ein hunain a'r amgylchedd rhag y bygythiadau hyn trwy:

- Sicrhau erbyn 2012 bod polisïau ar y newid yn yr hinsawdd yn cynnwys ymyriadau polisi penodol i sicrhau y defnyddir llai o ddŵr, mewn cartrefi newydd a chartrefi sy'n bodoli eisoes, er mwyn rhoi Cymru ar y trywydd i leihau lefel gyfartalog defnyddiaeth 20% erbyn 2030.
- Cyflwyno mesuryddion dŵr i bawb, gyda strwythur prisiau sy'n darparu cymhelliad i fod yn effeithlon gyda dŵr, heb gosbi aelwydydd bregus.
- Gwella'r system carthffosydd i leihau effeithiau gollwng carthion i'r amgylchedd naturiol.
- Creu rhwydwaith draenio trefol modern a all liniaru llifogydd dŵr wyneb a dal llygredd.
- Bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a sicrhau bod gan randdeiliaid lleol ran lawn wrth ei rhoi ar waith.

# WWF Cymru mewn rhifau

WEDI'I AILGYLCHU 100%

## 2000

mae WWF Cymru yn cael ei sefydlu ac yn dechrau gweithredu yng Nghymru



Rhaid lleihau ôl troed Cymru

## 75%

erbyn 2050

## 10 MLYNEDD

o ymgyrchu WWF yn arwain at Ddeddf Morol newydd sydd yn amddiffyn moroedd Cymru a'r DU

Lleihau allyriadau o

## 40%

erbyn 2020

WWF

**Pam ein bod ni yma.**
Rydym ni'n creu atebion i'r heriau cadwraethol mwyaf difrifol y mae ein planed yn eu hwynebu, gan helpu pobl a natur i ffynnu.

wwf.org.uk/cymru

WWF-UK elusen gofrestredig rhif 1081247 a chofrestredig yn yr Alban rhif SC039593. Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif 4016725 ©1986 symbol y Panda a ®"WWF" Nod Masnach Cofrestredig gan WWF - World Wide Fund for Nature (World Wildlife Fund gynt), WWF-UK, Panda House, Weyside Park, Godalming, Surrey, GU7 1XR, t: +44 (0)1483 426333, e: cymru@wwf.org.uk, wwf.org.uk/cymru

WWF® CYMRU

CYMRU

WWF.ORG.UK/CYMRU